Deddf Cydraddoldeb 2010:

canllaw i bleidiau gwleidyddol

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Beth yw nod y canllaw hwn?

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r hyn y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei olygu i bleidiau gwleidyddol a'u haelodau. Mae'n cynnwys eglurhad o'r camau gweithredu y mae'n gyfreithlon i bleidiau eu cymryd i gynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi etholedig ac o fewn strwythurau eu pleidiau eu hunain. Rydym hefyd yn egluro pryd a sut y bydd aelodau o bleidiau gwleidyddol, a phobl sy'n awyddus i ddod yn aelodau, yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu anghyfreithlon.

Nid crynodeb cynhwysfawr o gyfraith cydraddoldeb mohono. Ar hyd y canllaw rydym yn cyfeirio at ein Codau Ymarfer a'n cyfarwyddyd sy'n cynnig gwybodaeth fanylach.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar ein gwefan i helpu awdurdodau lleol, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ddeall rôl cydraddoldeb a hawliau dynol mewn etholiadau.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw yma?

Bwriadwyd y canllaw yn bennaf ar gyfer pleidiau gwleidyddol a'u haelodau. Bydd hefyd o ddiddordeb i bobl a sefydliadau sydd am weld rhagor o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymwneud â gwleidyddiaeth.

Mae'r wybodaeth yn ymwneud â chyfraith cydraddoldeb a phleidiau gwleidyddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Ceir hefyd rheolau penodol am gyllido gwleidyddol, rhoddion a gwariant ar ymgyrchoedd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhain gan y Comisiwn Etholiadol, sy'n cyhoeddi canllawiau ar y ddeddfwriaeth berthnasol.

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Egwyddorion sylfaenol cyfraith cydraddoldeb 5

Rhan 1: Camau i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal 7

Gweithredu positif wrth ddewis ymgeiswyr 7
Lleoedd cadw ar restrau byrion 9
Gweithredu positif: y darpariaethau cyffredinol 10
Cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr 10

Rhan 2: Peidio â gwahaniaethu rhwng aelodau plaid 12

Pwy sy'n cael ei warchod? 12
Pan fydd gwahaniaethu'n anghyfreithlon 12
Osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon 13
Ymaelodi 13
Mynediad at fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau'r blaid 15
Amddifadu aelod o'i aelodaeth 15
Amrywio telerau'r aelodaeth 16
Unrhyw niwed arall 16
Y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol 17

Rhan 3: Cymorth ariannol ychwanegol i ymgeiswyr anabl 21

Rheolau ynglŷn â gwariant pleidiau gwleidyddol 21
Rheolau ar dreuliau etholiad sy'n cael eu hysgwyddo gan ymgeiswyr 22
Cydnabod y costau ychwanegol y mae ymgeiswyr anabl yn eu hwynebu 22
Cysylltiadau â ffynonellau eraill o wybodaeth 23

Cysylltiadau 24

Cyflwyniad

Mae cyfranogi yn y broses ddemocrataidd yn fater pwysig. Mae'n rhoi cyfle i bobl gael llais o ran y math o gymdeithas maent am ei chael, a sut y maent am gael eu llywodraethu. Un ffordd bwysig o gymryd rhan yw ymaelodi â phlaid wleidyddol a chyfrannu at ei gweithgareddau a hyd yn oed cael eich dewis i sefyll fel aelod etholedig. Fodd bynnag, gwyddom nad oes gan ferched, lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) a phobl anabl gynrychiolaeth ddigonol ac nid ydynt yn cyfranogi'n gyfartal yn ein cyrff etholiadol.

Gall Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf) helpu i gynyddu amrywiaeth a gwella cyfranogiad yn ein sefydliadau democrataidd. Mae'n caniatáu i bleidiau gwleidyddol fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth yn eu strwythurau eu hunain ac wrth ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau. Mae hyn yn bwysig. Os yw ein sefydliadau democrataidd yn adlewyrchu'n llawn y bobl y maent yn eu gwasanaethau a'r gymdeithas rydym yn byw ynddi, gallant fod yn fwy cynhwysol a gwneud rhagor o benderfyniadau ar sail gwybodaeth sy'n gweithio i bawb.

Mae'r nodiadau briffio hyn yn canolbwyntio ar sut y mae'r Ddeddf yn gymwys i weithgareddau pleidiau gwleidyddol a'u perthnasoedd ag aelodau a darpar aelodau. Mae wedi'i rannu'n dair rhan.

Mae'r rhan gyntaf yn esbonio sut y gall pleidiau gwleidyddol ddefnyddio camau gweithredu positif i gynyddu amrywiaeth mewn swyddi etholedig a strwythurau'u pleidiau. Mae'r ail ran yn canolbwyntio ar wahanol fathau o wahaniaethu a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, ac mae'n egluro yma sefyllfaoedd y bydd aelodau pleidiau gwleidyddol yn cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r drydedd ran yn dwyn sylw at rai o'r rheolau ar wariant pleidiau at ddibenion ymgyrchu, a'r cronfeydd a sefydlwyd i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd sy'n berthnasol i ymgeiswyr anabl.

Egwyddorion sylfaenol cyfraith cydraddoldeb

Egwyddor waelodol y Ddeddf yw y dylai pawb gael ei drin yn deg a chael cyfleoedd cyfartal i gyflawni'i botensial. Dan y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl, aflonyddu arnynt na'u herlid oherwydd bod ganddynt neu oherwydd canfyddiad bod ganddynt nodwedd warchodedig, neu os oes cysylltiad rhyngddynt â rhywun a chanddo nodwedd warchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw, a
- chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf yn gwarchod pobl rhag gwahaniaethu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, gan gynnwys wrth ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus, cyflogaeth, tai, gwaith, addysg a gweithgareddau cymdeithasau (gan gynnwys pleidiau gwleidyddol). Mae nifer fechan o eithriadau sy'n caniatáu i bobl gael eu trin yn wahanol heb i'r sefyllfa fod yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae'n synhwyrol dechrau o'r safbwynt bod gwahaniaethu oherwydd nodwedd warchodedig yn debygol o fod yn anghyfreithlon. Prin yw'r eithriadau, a dylid eu dehongli mewn modd cyfyngedig. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn ein dogfen **Codau Ymarfer Deddf Cydraddoldeb.**

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i bobl anabl gael eu trin yn fwy ffafriol na phobl nad ydynt yn anabl heb i hyn gael ei gyfri'n wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn pobl nad ydynt yn anabl. Y rheswm am hyn yw ei bod yn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol i gydraddoldeb y bydd pobl anabl yn eu hwynebu yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Caniateir mesurau camau gweithredu positif hefyd. Bwriedir i'r rhain fynd i'r afael â'r anfanteision a'r dan-gynrychiolaeth sy'n rhan o brofiad pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

© Bill Perry/Shutterstock.com

Rhan 1: Camau i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal

Mae rhan un yn esbonio'r camau y gall pleidiau gwleidyddol eu cymryd i wella amrywiaeth eu hymgeiswyr a'u strwythurau democrataidd. Mae'n esbonio hefyd sut y mae darpariaethau camau positif y Ddeddf yn berthnasol wrth ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol a seneddol. Mae hefyd yn esbonio camau gweithredu y gall pleidiau eu cymryd i helpu i sicrhau bod pobl o bob cymuned yn gallu ymuno â phleidiau a chymryd rhan weithredol yn eu gwaith.

Camau gweithredu positif wrth ddewis ymgeiswyr [a.104]

Ni chaiff pleidiau gymryd camau positif yn eu prosesau i ddewis ymgeiswyr oni bai fod cynrychiolaeth annigonol o bobl sy'n rhannu un o'r nodweddion gwarchodedig a restrir ar dudalen 5 yng nghynrychiolaeth y blaid a etholwyd i'r cyrff canlynol:

- Senedd y DU
- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llywodraeth leol.

Mae gweithredu'n bositif yn wirfoddol, ac ni ellir gorfodi pleidiau gwleidyddol i wneud hyn.

Lle ceir cynrychiolaeth annigonol, gall pleidiau gymryd camau positif i annog aelodau o'r grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol i ddod ymlaen i gael eu dewis. Gallai hyn gynnwys darparu cynlluniau mentora, cyfleoedd hyfforddi a chymorth ychwanegol neu benodol a luniwyd yn arbennig i annog yr aelodau hyn i gynnig eu hunain.

Gall pleidiau gwleidyddol hefyd sicrhau, wedi i'r ymgeiswyr gael eu dewis, nad yw enwau pobl o'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi'u gosod ar waelod rhestrau'r pleidiau, neu gallent 'gefeillio' ymgeiswyr etholaethau, er enghraifft gall y blaid ddewis ymgeisydd gwrywaidd ar gyfer un etholaeth ac ymgeisydd benywaidd ar gyfer etholaeth arall.

Mae angen i bleidiau gwleidyddol ddangos bod y camau gweithredu positif yn gymesur. Er enghraifft, mae trefniadau dewis sydd â'r nod o wella cynrychiolaeth un grŵp penodol, ond sy'n lleihau yn afresymol obeithion grŵp gwarchodedig arall o gael eu dewis, yn debygol o fod yn anghymesur.

Enghraifft:

Mewn ardal ag iddi gymuned Asiaidd fawr, mae plaid wleidyddol yn sylweddoli bod ganddi rhy ychydig o gynghorwyr o gefndir Asiaidd, felly mae'n penderfynu mabwysiadu trefniadau dewis newydd i gynyddu nifer y bobl Asiaidd sy'n sefyll i gael eu hethol fel cynghorwyr, gan gynnwys ysgrifennu at bob aelod o'r blaid y maent yn ymwybodol ei fod o gefndir Asiaidd a chynnig hyfforddiant a mentora i annog pobl i gynnig eu hunain fel ymgeiswyr.

Mae aelod o'r blaid nad yw o darddiad Asiaidd ac am gynnig ei hun yn yr etholiad yn cwyno am wahaniaethu ar sail hil pan na chaiff ei chynnwys ar y rhestr fer. Nid yw'r gŵyn yn cael ei hategu oherwydd gall y blaid dystio bod y camau a gymerodd yn gyfreithlon - mewn geiriau eraill, ei bod yn mynd i'r afael yn ddiffuant â than-gynrychiolaeth a'u bod yn gymesur.

Lleoedd cadw ar restrau byrion [a.104 (6)]

Lle nad oes gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig gynrychiolaeth ddigonol ymhlith cynrychiolwyr etholedig plaid wleidyddol, mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r blaid gadw nifer sefydlog o leoedd ar eu rhestrau byrion o ymgeiswyr ar gyfer pobl o'r grŵp a dangynrychiolir.

Er enghraifft:

- Bod ag o leiaf un ymgeisydd o bob grŵp a dangynrychiolir ar y rhestrau byrion.
- Cyflwyno 'rhestr fer gytbwys', lle mae'n rhaid cynnwys nifer cyfartal o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd.
- Rhestrau byrion cymesur, er enghraifft, rhaid i 20 y cant o'r ymgeiswyr fod yn anabl.

Fel rheol, ni all pleidiau gwleidyddol gadw'r holl leoedd ar restr fer etholiad ar gyfer pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol. Y ddau eithriad i'r rheol yma yw rhyw ac anabledd.

Rhyw [s.104 (7)]

Gall pleidiau gwleidyddol gadw'r holl leoedd ar eu rhestr fer ar gyfer un rhyw os bydd hyn yn lleihau cynrychiolaeth anghyfartal yn y Senedd neu mewn llywodraeth leol. Bydd rhestrau byrion o un rhyw yn unig yn cael eu caniatáu hyd 31 Rhagfyr 2030. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu rhestr fer 'merched yn unig' (er, pe byddai dynion yn cael eu tangynrychioli mewn plaid wleidyddol, fe allai olygu rhestr fer 'dynion yn unig'). Nid oes rhaid i'r blaid ddangos bod rhestrau byrion 'merched yn unig' yn gymesur.

Anabledd

Gall pleidiau gwleidyddol gyfyngu rhestrau byrion i ymgeiswyr anabl. Y rheswm am hyn yw mai dim ond y rheiny sy'n cyd-daro â diffiniad anabledd dan y Ddeddf sy'n cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu ar sail anabledd ac mae'r Ddeddf yn dweud yn benodol nad gwahaniaethu yw trin pobl anabl yn fwy ffafriol na rhywun nad yw'n anabl [a.13(3)].

Fodd bynnag, byddai plaid yn cyfyngu rhestr fer i ymgeiswyr anabl gyda math penodol o amhariad neu nam yn wahaniaethu. Byddai hyn yn golygu bod rhai pobl anabl yn cael eu trin yn fwy ffafriol nag eraill oherwydd eu hanabledd.

Gweithredu positif: y darpariaethau cyffredinol [a.158]

Y tu hwnt i'r darpariaethau sy'n caniatáu camau gweithredu positif wrth ddewis neu lunio rhestr fer o ymgeiswyr, mae darpariaethau gweithredu positif cyffredinol y Ddeddf yn caniatáu i bleidiau gwleidyddol fynd i'r afael ag anfantais a than-gynrychiolaeth ymysg eu haelodau ac yn strwythurau eu pleidiau.

Caniateir gweithredu positif os oes angen i'r blaid gymryd camau i orchfygu anfantais, i ddiwallu gwahanol anghenion, neu i gynyddu cyfranogiad pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Rhaid i'r blaid 'yn rhesymol feddwl' bod pobl mewn grwpiau gwarchodedig o dan anfantais sy'n gysylltiedig â'r nodwedd warchodedig honno, bod eu hanghenion yn wahanol, neu nad oes cynrychiolaeth ddigonol iddynt, a rhaid i'r camau a gymerir fod yn gymesur.

Enghraifft:

Cynhaliodd plaid arolwg o amrywiaeth ei haelodau, gan gyfweld swyddogion y blaid a sefydliadau cydraddoldeb ynghylch sut i wella amrywiaeth. Daeth yr ymchwil o hyd i lai o gyfranogiad gan aelodau lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) yn strwythurau'r blaid o'u cymharu â grwpiau eraill. Penderfynodd y blaid gymryd camau positif i annog a chynorthwyo aelodau LGBT i gyfrannu at bwyllgorau, grwpiau, gweithgareddau ymgyrchoedd a chynadleddau. Roedd y camau wedi'u hanelu'n benodol at aelodau LGBT ac yn cynnwys: hyfforddiant, cynlluniau mentora, gwahoddiadau wedi'u targedu i ddod yn rhan weithredol yn strwythurau'r blaid ac interniaethau cyflogedig.

Cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr [a.106]

Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion yn y DU wneud rheoliadau sy'n gofyn bod pob plaid wleidyddol yn cyhoeddi data ar nodweddion gwarchodedig ei holl ymgeiswyr mewn etholiad perthnasol. Pe byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gwneud, byddai'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n ddienw a gallai ymgeiswyr wrthod datgelu'r holl wybodaeth yr oedd y blaid yn gofyn amdani, neu ran o'r wybodaeth honno.

Nid yw gweinidogion wedi rhoi'r pŵer yma ar waith, ond gallai pleidiau gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth hon beth bynnag, er mwyn bod yn fwy tryloyw ynghylch eu hamrywiaeth a chynyddu'r gefnogaeth i weithredu positif o fewn y blaid.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

© Monkey Business Images/Shutterstock.com

Rhan 2: Peidio â gwahaniaethu rhwng aelodau plaid

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am y berthynas rhwng plaid wleidyddol a'i haelodau presennol a'i darpar aelodau. Mae'n esbonio sut y mae darpariaethau anwahaniaethol yn y Ddeddf yn berthnasol i'r ffordd y mae pleidiau gwleidyddol yn trin eu haelodau a'u darpar aelodau.

Mae unrhyw gymdeithas neu glwb sydd ag o leiaf 25 aelod a phroses dethol i ymaelodi yn cael ei gyfrif gan y Ddeddf yn 'gymdeithas'. Bydd pleidiau gwleidyddol yn cyflawni diffiniad y Ddeddf o 'gymdeithas' fel arfer. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r blaid, a'r rheiny sy'n awyddus i ddod yn aelodau, yn cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu pan fyddant yn defnyddio unrhyw fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau y mae'r blaid yn ei darparu i'w haelodau.

Mae rhagor o ynghylch y modd y mae'r Ddeddf yn gymwys i gymdeithasau i'w gweld yn **'Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu ichi fel cymdeithas, clwb neu gymuned'** ac **'Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i'ch aelodaeth chi o gymdeithas'.**

Pwy sy'n cael ei warchod?

Gwarchodir aelodau o bleidiau gwleidyddol (a'r rheiny sy'n awyddus i ddod yn aelodau) rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid yng nghyd-destun yr holl nodweddion a warchodir yn y Ddeddf ac eithrio priodas a phartneriaeth sifil.

Pan fydd gwahaniaethu'n anghyfreithlon

Gall gwahaniaethu anghyfreithlon ddigwydd ar sawl ffurf. Rhoddir enghreifftiau ledled yr adran hon. Mae rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid yn ein **Codau Ymarfer y Ddeddf Cydraddoldeb.**

Osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon

Gall pleidiau gwleidyddol gymryd camau i osgoi gwahaniaethu trwy:

- Adolygu amodau neu ofynion aelodaeth yn eu cyfansoddiad neu'u rheolau i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu.
- Cynnwys grwpiau cydraddoldeb, pobl â phrofiad ymarferol neu bobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig mewn unrhyw adolygiadau o bolisïau neu arferion y blaid er mwyn dod o hyd i feysydd lle ceir gwahaniaethu posibl y mae angen mynd i'r afael ag ef.
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y blaid.
- Cymryd cwynion ynglŷn â gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid o ddifrif calon, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i reolau, polisïau ac arferion.
- Adnabod y rhwystrau posibl i bobl anabl a gwneud addasiadau rhesymol.

Ymaelodi [a.101 (1)]

Mae'r Ddeddf yn manylu ar reolau penodol o ran amodau aelodaeth pleidiau gwleidyddol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon i bleidiau wahaniaethu yn erbyn rhywun sy'n ceisio ymaelodi, aflonyddu arno, na'i erlid. Mae hyn yn cynnwys:

- pwy sy'n gallu gwneud cais i ymaelodi
- sut y mae pobl yn darganfod sut i ymaelodi â'r blaid
- gweithdrefnau, prosesau a ffurflenni cais
- unrhyw weithdrefnau neu brosesau dethol aelodaeth, a
- phwy sy'n gallu mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ynglŷn ag aelodaeth o'r blaid.

Rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu o ran y **telerau ar gyfer derbyn pobl yn aelodau.** Gallai hyn gynnwys y:

- mathau o aelodaeth
- ffioedd ymuno, ac
- amodau derbyn.

Ni chaniateir i bleidiau gwleidyddol gyfyngu'u haelodaeth i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig [Atodlen 16, 1(5)].

Enghraifft:

Roedd nawfed Cyfansoddiad Plaid Genedlaethol Prydain (BNP) yn datgan:

'Mae aelodaeth o'r BNP wedi'i chyfyngu'n gaeth o fewn telerau'r cwmpasiad cyfreithiol 'grŵp hiliol' diffiniedig, sef 'Cawcasaidd Cynhenid' a 'grwpiau ethnig' diffiniedig sy'n tarddu o'r Hil honno', ac mae ein haelodau hefyd yn eu hunanddiffinio'u hunain o fewn y cwmpasiad hwnnw'.

Yn 2009 fe wnaethom ddechrau achos cyfreithiol yn erbyn y BNP oherwydd ein bod yn ystyried y meini prawf aelodaeth yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail hil.

Yn ystod yr achos cyfreithiol y gwnaethom ei ddechrau yn erbyn y BNP, diwygiodd y blaid ei chyfansoddiad fel bod aelodaeth yn agored i bobl o unrhyw hil neu darddiad ethnig. Fodd bynnag, gwnaeth y blaid hi'n ofynnol i aelodau newydd gytuno neu gefnogi, a pheidio â gwrthod neu anghytuno â'r 'cynnig bod pob un o'r Datganiadau Prydeinig Cynhenid, Prydeinig Dinesig, Prydeinig Cenedlaethol neu Genedlaethol Eraill, ymhob mater o bwys, yn wir ac yn fanwl gywir.' Fe wnaethant hefyd gyflwyno Amod Cynefino Aelodau yn pennu na fyddai unrhyw aelod yn cael ei ganiatáu i fynychu unrhyw gyfarfod swyddogol o'r blaid, y gangen na'r grŵp nes eu bod wedi caniatáu i gynrychiolwyr awdurdodedig y blaid eu cyfweld yn eu cartrefi at ddibenion cynnal ymchwil i'r farchnad ac arolwg o ddisgwyliadau a dyheadau aelodau.

Cafodd y llys fod y rhain yn amodau y byddai'n rhaid i aelodau eu bodloni wrth gael eu derbyn i'r blaid. Byddent yn atal rhai rhag gwneud cais i ymuno â'r blaid ac roeddent yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail hil. Roedd y llys hefyd yn cydnabod nad yw'n anghyfreithlon bod â safbwynt gwahaniaethol. Fodd bynnag os yw'r safbwyntiau gwahaniaethol hyn yn rhan o'r system o dderbyn aelodau i'r blaid, yna mae perygl eu bod yn torri deddf cydraddoldeb.

Mynediad at fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau'r blaid [a.101 (2)(a)]

Rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu yn erbyn aelodau, aflonyddu arnynt na'u herlid wrth ganiatáu iddynt ddefnyddio budd, cyfleuster neu wasanaeth. Mae buddion, cyfleusterau neu wasanaethau yn cynnwys amrywiaeth eang o fanteision, cyfleoedd a gweithgareddau y mae aelodau presennol plaid wleidyddol yn eu mwynhau. Mae hyn yn cynnwys:

- cymryd rhan mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol y blaid
- cymryd rhan mewn pwyllgorau neu grwpiau sy'n llunio penderfyniadau
- cymryd rhan yn etholiadau'r blaid ac etholiadau trwy'r post
- cael eu dewis yn ymgeisydd ar gyfer swydd etholedig
- pleidleisio ar benderfyniadau yng nghyfarfodydd lleol a chenedlaethol y blaid
- defnyddio cyfarpar neu gyfleusterau'r blaid
- darllen dogfennau'r blaid, er enghraifft y Cyfansoddiad, y Llyfr Rheolau neu adroddiadau polisi a
- derbyn cylchlythyrau a darllen cyfathrebiadau eraill y blaid, er enghraifft fforymau ar-lein.

Enghraifft:

Mae gan aelod benywaidd faban y mae hi'n ei fwydo ar y fron. Dywedir wrthi na ddylai hi fynychu cyfarfod blynyddol y blaid yn ei hetholaeth oherwydd na fyddai'r aelodau'n gyfforddus yn ei gwylio'n bwydo ei baban ar ei bron. Mae hyn yn golygu ei bod yn cael ei heithrio o'r cyfarfod ac o bleidleisio am y swyddogion, sydd ymhlith manteision ei haelodaeth, ac mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

Amddifadu aelod o'i aelodaeth [a.101 (2)(b)]

Rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu yn erbyn aelod trwy ei amddifadu o'i aelodaeth oherwydd nodwedd warchodedig. Gallai hyn gynnwys ei wahardd neu'i ddiarddel o'r blaid.

Amrywio telerau'r aelodaeth [a.101 (2)(c)]

Rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu yn erbyn aelod trwy amrywio telerau ei aelodaeth oherwydd nodwedd warchodedig. Mae telerau aelodaeth i'w gweld fel arfer ym mholisïau neu ddogfennau ysgrifenedig y blaid, er enghraifft y cyfansoddiad neu lyfr rheolau a gallant gynnwys:

- hawliau pleidleisio i enwebu a dewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau cenedlaethol neu leol ac etholiadau a phenodiadau'r blaid
- amodau a osodwyd o ran yr hawl i siarad yn nigwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd y blaid, ac
- amodau defnyddio cyfleusterau'r blaid.

Unrhyw niwed arall [a.102 (2)(d)]

Rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu yn erbyn aelod trwy beri iddo fod yn destun unrhyw niwed arall. Unrhyw beth y gellir yn rhesymol ystyried ei fod yn newid sefyllfa'r aelod er gwaeth neu ei roi dan anfantais yw niwed. Hyd yn oed os yw'r blaid yn credu ei bod yn gweithredu er budd pennaf rhywun, mae'n bosibl ei bod yn ei niweidio.

© Daniel Heighton/Shutterstock.com

Y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol [a.20 ac At. 15]

Rhaid i bleidiau gwleidyddol wneud addasiadau rhesymol ar gyfer eu haelodau anabl. Mae dyletswyddau pleidiau gwleidyddol tuag at eu haelodau anabl yn wahanol i'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i wasanaethau, addysg a gwaith.

Mae'r ddyletswydd ar bleidiau gwleidyddol i wneud addasiadau rhesymol yn rhagweledol. Golyga hyn fod pleidiau dan ddyletswydd bositif a rhagweithiol i feddwl am unrhyw rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag mwynhau hawliau a buddion aelodaeth y blaid a chymryd camau i symud y rhwystrau hynny. Rhaid i bleidiau gynllunio a rhoi ar waith addasiadau y gallai pobl ag amrywiaeth o amhariadau yn rhesymol fod eu hangen er mwyn gallu defnyddio hawl neu fudd. Os nad ydynt wedi gwneud hyn, byddant wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Os nad yw rhywun sy'n anabl wedyn yn gallu defnyddio hawl neu fudd oherwydd hyn, yna bydd y blaid wedi gwahaniaethu yn ei erbyn.

Rhaid i bleidiau gymryd camau rhesymol i osgoi gosod aelodau anabl dan anfantais, a lle bo modd rhaid iddynt geisio dod o hyd i ffyrdd o ganiatáu iddynt ddefnyddio **hawliau, buddion, cyfleusterau neu wasanaethau presennol yn yr un ffordd â phawb arall.**

Enghraifft:

Mae plaid wleidyddol yn caniatáu i bob darpar ymgeisydd gael pum munud fel arfer i siarad mewn cyfarfodydd dewis. Mae gan un o'r ymgeiswyr nam ar y lleferydd a chaniateir iddo gael amser ychwanegol.

Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol hefyd yn cynnwys **darparu cymhorthion a gwasanaethau ychwanegol** os yw hyn yn caniatáu neu'n ei gwneud hi'n haws i aelodau anabl allu defnyddio'r hawliau, y buddion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n rhan o fod yn aelod o'r blaid.

Rhaid i bleidiau gwleidyddol hefyd gymryd camau i sicrhau bod **gwybodaeth i aelodau ar gael ar ffurf hygyrch, er enghraifft print mawr.**

Enghraifft:

Mae lleoliad cynhadledd flynyddol y blaid yn anhygyrch i rai pobl anabl. Pan fydd yr aelodau'n cofrestru i fynychu'r gynhadledd, gofynnir iddynt a oes angen unrhyw gymorth neu gefnogaeth ychwanegol arnynt. Mae un aelod anabl yn gofyn am gymorth i'w helpu i symud o amgylch lleoliad y gynhadledd a'r cyfarfodydd ar y cyrion. Bydd staff yn cael eu neilltuo i ddarparu cymorth gyda thywys. Byddai hyn yn wasanaeth ychwanegol.

Mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol os yw aelodau anabl yn cael eu gosod **dan anfantais oherwydd nodwedd ffisegol** pan maent:

- yn defnyddio budd, cyfleuster neu wasanaeth, neu
- yn cael eu derbyn fel aelodau.

Enghraifft:

Mae cangen ranbarthol yn cyfarfod pob mis ym Mhencadlys y blaid. Mae grisiau ger y fynedfa, ac er gwaethaf y ffaith fod y ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol yn un rhagweledol, ni osodwyd ramp yno. Mae aelod newydd sy'n defnyddio cadair olwyn yn awyddus i ddod yn weithgar yn y gangen a mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r gangen yn trefnu bod ramp yn cael ei adeiladu ger y fynedfa er mwyn i'r aelod anabl ddefnyddio'r adeilad. Maent hefyd yn cynnal archwiliad o'r adeilad cyfan i sicrhau bod unrhyw addasiadau rhesymol eraill yn cael eu gwneud. O ganlyniad i hynny maent hefyd yn gosod toiled i'r anabl yno ac yn gwella'r arwyddion o amgylch yr adeilad.

Pryd mae addasiad yn 'rhesymol'?

Mae'r hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a yw addasiad yn rhesymol ai peidio, dylid ystyried ffactorau fel y rhai a ganlyn:

- P'un a fyddai camau penodol yn effeithiol wrth orchfygu'r anfantais y mae rhywun anabl yn ei hwynebu.
- I ba raddau mae'n ymarferol i'r blaid wleidyddol wneud y newidiadau.
- Costau ariannol a chostau eraill gwneud yr addasiad.
- I ba raddau y byddai gwneud y newidiadau yn aflonyddu ar waith y blaid.
- Maint adnoddau ariannol ac adnoddau eraill y blaid wleidyddol.
- Swm unrhyw adnoddau sydd eisoes wedi'u gwario ar wneud addasiadau.
- P'un a oes cymorth ariannol neu gymorth arall ar gael.

Ni ellir gofyn i rywun sy'n anabl dalu am addasiadau rhesymol. Cyfrifoldeb y blaid yw talu unrhyw gostau rhesymol. [a.20(7)].

Camau gorfodi

Dylai aelodau gwyno am ymddygiad a allai fod yn wahaniaethol yn uniongyrchol i'r blaid yn y lle cyntaf. Gallant hefyd hawlio achosion gwahaniaethol yn y llys. Yn Lloegr a Chymru, rhaid iddynt hawlio trwy'r Llys Sirol. Yn yr Alban, rhaid eu hawlio yn Llys y Siryf. [a.114]. Rhaid hawlio cyn pen chwe mis o'r gwahaniaethu neu'r methiant i wneud addasiadau.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

© Iurii Racenkov/Shutterstock.com

Rhan 3: Cymorth ariannol ychwanegol i ymgeiswyr anabl

Yn yr adran hon rydym yn edrych ar y cyfyngiadau a allai wynebu pleidiau wrth iddynt ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl, a sut y gellir o bosibl goresgyn y cyfyngiadau hyn.

Mae cyfraith etholiad yn gosod cyfyngiadau ar faint y gall ymgeiswyr a phleidiau ei gwario ar ymgyrchoedd etholiad, ac mae'r rheolau'n parhau ar y cyfan i fod yn gymwys lle rhoddir cymorth ariannol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cynrychiolaeth. Mae eithriadau i gyfyngiadau gwariant ymgeiswyr ar dreuliau personol, a gall hyn gynnwys treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Dylai ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol wirio'r rheolau ar gyfer yr etholiad cyn i blaid ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i ymgeiswyr sy'n sefyll am swydd gyhoeddus. Mae'r Comisiwn Etholiadau'n darparu canllawiau manwl ar ariannu pleidiau a gwariant ar ymgyrchoedd.

Rheolau ynglŷn â gwariant pleidiau gwleidyddol

Yn y cyfnod cyn rhai etholiadau, mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) yn gosod rheolau ar gyfer holl wariant plaid wleidyddol gofrestredig i hyrwyddo ei llwyddiant neu i wella safiad y blaid neu unrhyw ymgeiswyr. Mae gwariant o'r fath yn cynnwys hysbysebu o unrhyw fath, darllediadau etholiad y blaid, deunyddiau digymell a anfonir at bleidleiswyr, ymchwil i'r farchnad, cynadleddau i'r wasg, ralïau a digwyddiadau.

Mae PPERA yn gorfodi cyfyngiadau ariannol ar wariant ar ymgyrchoedd gan blaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mewn un neu fwy o etholaethau mewn etholiad i Senedd y DU. Nid oes unrhyw eithriadau eglur o ran costau ychwanegol at ddibenion mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cynrychiolaeth na chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Os yw gwariant yr ymgyrch yn uwch na'r cyfyngiadau, bydd y trysorydd neu unrhyw ddirprwy drysorydd y blaid yn euog o drosedd os oedd yn gwybod ac yn awdurdodi'r gwariant ychwanegol, neu os dylai yn rhesymol fod wedi gwybod iddo ddigwydd.

Rheolau ar dreuliau etholiadau a ysgwyddir gan ymgeiswyr

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn gosod cyfyngiad ar dreuliau etholiad sy'n cael eu hysgwyddo gan neu ar ran ymgeisydd ar gyfer etholiadau i Senedd y DU. Os yw'r treuliau etholiadau a ysgwyddir yn uwch na'r uchafswm, mae'r ymgeisydd neu ei asiant etholiad a ddylai yn rhesymol fod wedi gwybod am hyn yn euog o arfer anghyfreithlon. Er nad oes eithriad eglur ar gyfer costau ychwanegol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cynrychiolaeth neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd, mae eithriad ar gyfer treuliau personol ymgeisydd, a gallai hyn gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Cydnabod y costau ychwanegol y mae ymgeiswyr anabl yn eu hwynebu

Sefydlodd Llywodraeth y DU Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig yn 2012 i ddarparu cymorth ariannol i bobl anabl a oedd yn sefyll mewn etholiadau i Senedd y DU. Talodd y gronfa hon am gostau ymgeiswyr a oedd yn ymwneud â'r anabledd. Fodd bynnag, fe gaeodd y gronfa fis Mai 2015, ac ni ddaeth ffynhonnell arall o gymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl yn ei lle.

Diwygiodd Llywodraeth yr Alban reolau gwariant ymgeiswyr yn etholiadau i Senedd yr Alban yn 2016 i sicrhau nad oedd y costau yr oedd ymgeiswyr anabl yn eu hwynebu yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau statudol ar wariant ar ymgyrchu. Dywedodd Erthygl 80 (2)(c) Gorchymyn Senedd yr Alban (etholiadau ac ati) 2015 yn eglur y dylid ystyried gwariant a ysgwyddir gan ymgeisydd o ganlyniad i'w anabledd yn draul bersonol. Nododd Erthygl 80 (1) y Gorchymyn nad oedd y gwariant hwn yn cyfrif tuag at gyfyngiad treuliau personol naill ai ymgeisydd etholaeth neu ymgeisydd rhanbarthol. Pasiwyd darpariaethau tebyg ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yr Alban yn 2017.

Yna sefydlodd Llywodraeth yr Alban Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i bobl anabl oedd yn sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau Llywodraeth Leol yr Alban fis Mai 2017. Gall ymgeiswyr anabl, a'r rheiny sy'n ymgeisio i gael eu dethol, wneud cais i'r Gronfa i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hanabledd, er enghraifft, cludiant hygyrch, cynorthwyydd personol neu ddehonglwr sy'n defnyddio iaith arwyddion. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r Gronfa tuag at gostau ymgyrchu cyffredinol sy'n mynd y tu hwnt i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng ymgeisydd anabl ac ymgeisydd nad yw'n anabl. Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i ddefnyddio'r Gronfa ar gyfer unrhyw isetholiadau i lywodraeth leol a'r etholiadau i Senedd yr Alban yn 2021.

Cysylltiadau i ffynonellau gwybodaeth eraill

Canllawiau'r Comisiwn Etholiadau i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr ac ymgeiswyr ac asiantau:
https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/publications/guidance

Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn yr Alban Inclusion Scotland:
http://inclusionscotland.org/information/employability-and-civic-participation/access-to-politics/aeofs/

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o wefan y Comisiwn: **www.equalityhumanrights.com**

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad yma at: **correspondence@equalityhumanrights.com**. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Microsoft Word o:
www.equalityhumanrights.com

I gael gwybodaeth am fynediad un o gyhoeddiadau'r Comisiwn mewn fformat amgen, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch, â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth sy'n annibynnol ac am ddim.

Gwefan	**www.equalityadvisoryservice.com**
Ffôn	**0808 800 0082**
Ffôn testun	**0808 800 0084**
Oriau	**09:00 i 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)**
	10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)
Post	**LLINELL GYMORTH FREEPOST EASS FPN6521**

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd Chwefror 2018
Front cover image © Dominika Zarzycka/Shutterstock.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission